



Rhwystrau i rannu honiadau ac amheuon

Rhwystrau i oedolion a phlant a phobl ifanc

- ofn dial: cael eu gadael ar eu pen eu hunain neu eu rhoi mewn 'gofal', y teulu yn troi eu cefn arnynt
- teimlo anobaith ynghylch atebion
- ofn yr effaith ar eraill
- anawsterau cyfathrebu
- meddyginiaeth amhriodol
- diffyg ymwybyddiaeth o hawliau
- derbyn
- hunan-barch isel ac euogrwydd
- caru'r sawl sy'n cam-drin neu fod yn agos ato.

Rhwystrau i staff neu wirfoddolwyr

- ofn cael eu hystyried yn rhywun sy'n creu trafferth
- diffyg gwybodaeth am ystyr cam-drin
- meddwl bod y defnyddiwr gwasanaeth yn rhywun sy'n creu trafferth / rhagfarn tuag at y defnyddiwr gwasanaethau
- materion diwylliannol neu sefydliadol – efallai eu bod wedi'u harwain i mewn i'r ymddygiad, diwylliant o fwlio
- stigma bod yn chwythwr chwiban – wedi'u diarddel, erledigaeth
- ddim am 'gario clecs' am gydweithwyr a diogelu ffrindiau
- llosgi'r gannwyll yn ei deupen / straen
- ofn colli dyrchafiad, swydd a 'geirdaon'
- diffyg dealltwriaeth o ran polisi a gweithdrefnau sefydliadol
- agwedd / 'poeni dim'
- profiad blaenorol o ddatgelu
- gwadu neu wrthod credu
- ofn hierarchaeth – efallai mai uwch aelodau o staff sy'n gyfrifol.

Rhwystrau i deulu a ffrindiau

- gwadu
- ddim am i eraill ymyrryd
- cywilydd / stigma
- diwylliant
- colled ariannol a'r canlyniadau
- teimlo'n ddi-rym ac ofn y canlyniadau
- ofn colli neu gymryd cyfrifoldeb
- teimlo'n euog am beidio â'i stopio
- cyd-dwylllo
- ofn yr effaith ar eraill
- ddim am gael sylw
- dim tystiolaeth
- ddim am chwalu'r teulu
- cam-drin blaenorol neu bethau eraill i'w cuddio.